

# Cytûn Hydref 2012

## Cylchlythyr



Paratowyd y cylchlythyr byr hwn yn ystod y cyfnod yn arwain at wyl yr Holl Saint, yn achos rhai o'n heglwysi. Dyma'r adeg o'r flwyddyn pan fydd Cristnogion yn myfyrio ar lawenydd cymdeithas Gristnogol o amgylch y byd, a hyd dragwyddoldeb. Mae dod â Christnogion ynghyd wedi bod yn realiti go iawn i Cytûn yn dilyn tymor hynod lwyddiannus arall o dystiolaethu ym mhrif ddigwyddiadau Cymru. Diolch yn fawr iawn i bawb a gyfoethogodd ein gweinidogaeth gytûn yn Eisteddfod yr Urdd yng Nglynllifon, yn y Sioe Amaethyddol Frenhinol yn Llanfair-ym-Muallt a'r Eisteddfod Genedlaethol ym Mro Morgannwg.


Mae trafodaethau'n parhau ynghylch sut y gall eglwysi dystiolaethu a gweinidogaethu o amgylch y ddarpariaeth bosib o **Ganolfan Gristnogol i Gefn Gwlad** ar faes y Gymdeithas Amaethyddol Frenhinol yn Llanfair-ym-Muallt. Mae Cytûn yn diolch am y bartneriaeth weithio dda sydd wedi'i sefydlu gyda'r Gymdeithas a phartneriaid Cristnogol. Gwerthfawrogir gwaith y caplaniaid gwledig yn fawr.



Cyd-lywyddu yn y Cydgynulliad

Darparodd Cytûn y gefnogaeth weinyddol a alluogodd **Comisiwn yr Eglwysi Cyfamodol yng Nghymru** i gynnal ei gyfarfod **Cydgynulliad** diweddar yn Aberystwyth. Daeth tua 400 o ddirprwyon o bob rhan o Gymru ynghyd i gydaddoli, i dderbyn anogaeth gan Ysgrifennydd Cyffredinol Cyngor Eglwysi'r Byd, Olav Fykse Tveit ac i ddechrau myfyrio ar argymhellion arloesol gan y Comisiwn ynghylch Llywodraeth Eglwysig ac arolygiaeth fugeiliol. Gellir cael manylion ynghylch gwaith y Comisiwn ac argymhellion y Cydgynulliad drwy wefan Cytûn neu o swyddfa Caerdydd. Mae'r ymateb yn awgrymu fod y rhan fwyaf o oedd yno wedi'u calonogi gan y Cydgynulliad, ac wedi'u hatgoffa o'r addewidion Cyfamodol a wnaed gan bum eglwys nôl yn 1975. Yr oedd rhai arweinwyr eglwysig wedi

annog y Comisiwn i fod yn eofn yn ei argymhellion. Ymatebodd y Cydgynulliad a'r argymhellion i'r eglwysi Cyfamodol i'r alwad honno.



Diwrnod i'r Brenin


Yr oedd Cytûn hefyd yn falch o gymryd rhan yn y cyfarfod **'Diwrnod i'r Brenin'** a drefnwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru yn Llanfair-ym-Muallt. Yr oedd y diwrnod yn hynod galonogol gyda thua mil o Gristnogion yn dod ynghyd i addoli, i rannu ac i dystiolaethu gyda'i gilydd drwy'r Gymraeg. Yn ogystal â thrafod gobeithion ar gyfer y dyfodol, myfyriodd y cyfranogwyr ar arwyddocâd y Troi Allan yn dilyn Deddf Unffurfiaeth 1662 yng Nghymru a Lloegr. Gadawodd dwy fil o weinidogion Pwritanaidd eu swyddi fel clerigwyr yn Eglwys Loegr, yn dilyn y newidiadau wedi i Siarl II gael ei ail-orseddu.

Bu'n fraint i Cytûn gefnogi rhai o gymunedau ffydd mwyaf newydd Cymru. Mae **Eglwys Unionged Ethiopia** Cymru yn tyfu yn Ne Cymru ac mae'r gymuned o Ethiopia wedi dod at Cytûn yn mynegi pryder bod angen iddyn nhw ddod o hyd i leoliad i addoli'n gyson. Maen nhw'n chwilio am adeilad i'w ddefnyddio yng Nghaerdydd yn ddelfrydol.

Cyflawnwyd llawer o waith drwy ymwneud Cytûn â materion eglwys a chymdeithas. Drwy weithio gyda phartneriaid yn y Gynghrair Efengylaidd, gwnaed cynnydd tuag at wneud Caerdydd yn Ddinas Noddfa. Mae cyfarfodydd cychwynnol yn cael eu trefnu hefyd gyda'r bwriad o ddatblygu'r cysyniad yn ardal Wrecsam. Yn ddiweddar, yn Fforwm Cymunedau Ffydd Llywodraeth Cymru, adroddodd Cytûn yn ôl i'r Prif Weinidog ar y cynnydd a wnaed. Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi cytuno i gefnogi'r syniad o wneud Cymru'n **Genedl Noddfa** mewn egyptor.

Trafodwyd nifer o faterion eraill yn y **Fforwm Cymunedau Ffydd**: rhoi organau, Deddf Hawliau Dynol y DU a strategaeth cydraddoldeb a gwrthdodi Llywodraeth Cymru. Croesawodd cynrychiolwyr y cymunedau ffydd ymrwymiad clir gan y Prif Weinidog i gefnogi darparu gofal ysbrydol o fewn y GIG yng Nghymru. Tanlinellodd waith da caplaniaid ysbysai ynghylch trasiediau proffil uchel diweddar yng Nghymru. Cytunodd i ailedrych ar fater cynghora'u'n cymryd y farn ei bod hi hwyrach yn anghyfreithlon iddyn nhw weddio ar ddechrau cyfarfodydd. Mae Cytûn hefyd wedi bod mewn cysylltiad cyson gyda swyddogion Llywodraeth Cymru ynghylch materion heddwch.

Yn ystod yr wythnosau nesaf bydd Cytûn yn dechrau myfyrio ynghylch cyflawni ei gynllun gwaith cyfredol. Anogir y cyrff sy'n aelodau, drwy aelodau'r Bwrdd, i lunio patrwm gwaith y mudiad yn y dyfodol. Bellach bydd y ffordd y mae offeryn eciwmeniaidd cenedlaethol Cymru yn gwasanaethu'r eglwysi'n cael ei hadolygu a'i hasesu'n gyson. Bydd y broses yn barhaus yn enwedig wrth i'r Eglwysi Cyfamodol fyfrio ymhellach ar sut mae ymateb i'r argymhellion a gynigwyd yn y Cydgynulliad.



### Yr Wythnos Weddi am Undod

#### Cristnogol 2013:

Gellir lawrlwytho'r adnoddau [http://www.ctbi.org.uk/pdf\\_view.php?id=826](http://www.ctbi.org.uk/pdf_view.php?id=826) neu gellir eu harchebu o Norwich Books and Music. Ffôn: 01603 785 925

Bydd y Cwrs **Croeso i Gymru** ar gyfer gweithwyr eglwysig lleyg ac ordeiniedig sy'n symud i Gymru o fannau eraill yn cael ei gynnal eto rhwng **23-25 Ionawr 2013, yng Ngholeg Mihangel Sant, Llandaf**. Gellir dod o hyd i fanylion, gan gynnwys sut mae cadw lle, ar wefan Cytûn a gan y swyddfeydd enwadol.

Cadwch le ar y Cwrs Croeso i Gymru trwy lenwi'r ffurflen o wefan Cytûn ([www.cytun.org.uk](http://www.cytun.org.uk)) neu drwy gysylltu â Geraint Hopkins ([geraint@cytun.org.uk](mailto:geraint@cytun.org.uk)) a'i hanfon yn ôl cyn Rhagfyr y 14eg 2012.